**Rhif:** WG37407

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Safonau proffesiynol drafft ar gyfer cynorthwyo addysgu

Dyddiad cyhoeddi: 23 Mai 2019

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron 2019 ISBN Digidol 978-1-83876-276-6

# Safonau proffesiynol drafft ar gyfer cynorthwyo addysgu

**Cynulleidfa**

Cyrff addysg sy'n ymwneud â'r rhai sy'n cynorthwyo addysgu yng Nghymru neu â diddordeb ynddynt, gan gynnwys, ysgolion, awdurdodau lleol, consortia addysg rhanbarthol, undebau athrawon, ymarferwyr a chyrff cyhoeddus.

**Trosolwg**

Rhydd y ddogfen hon grynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ar gynigion i gyflwyno safonau proffesiynol ar gyfer y rhai sy'n cynorthwyo addysgu (cynorthwywyr addysgu (CAau) a chynorthwywyr addysgu lefel uwch (CALUau)).

**Camau i'w cymryd**

Dim angen gweithredu – er gwybodaeth yn unig.

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Cangen Addysgeg, Safonau Proffesiynol a Safon Uwch
Is-adran Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: professionalstandardsreview@llyw.cymru

@LlC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

**Copïau ychwanegol**

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn https://llyw.cymru/safonau-proffesiynol-drafft-ar-gyfer-cynorthwyo-addysgu

**Dogfennau cysylltiedig**

Mae gwybodaeth am y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn https://learning.gov.wales/resources/collections/professional-standards?lang=cy

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad** **1**
**2. Trosolwg o'r ymatebion** **1**
**3. Cwestiynau'r ymgynghoriad a dadansoddiad o'r ymatebion** **2**
Cwestiwn 1 2
Cwestiwn 2 4
Cwestiwn 3 5
Cwestiwn 4 6
Cwestiwn 5 8
Cwestiwn 6 9
Cwestiwn 7 10
Cwestiwn 8 11
Cwestiwn 9 13
Cwestiwn 10 14
Cwestiwn 11 15
**Atodiad 1: Rhestr o'r ymatebwyr** **17**

# 1. Cyflwyniad

Cynigiodd yr ymgynghoriad gyflwyno set o safonau proffesiynol ar gyfer pob cynorthwyydd addysgu (CAau) a chynorthwyydd addysgu lefel uwch (CALUau) sy'n gweithio gyda dysgwyr yn yr ystafell ddosbarth.

Ceisiodd yr ymgynghoriad farn ar sut y gellid defnyddio safonau proffesiynol i feithrin datblygiad proffesiynol fel rhan o gylch adolygu perfformiad yr ysgol er mwyn galluogi'r rhai sy'n cynorthwyo addysgu i fyfyrio ar eu hymarfer a'i ddatblygu, nodi meysydd i'w datblygu a chefnogi eu datblygiad proffesiynol. Cafodd yr ymgynghoriad ei lansio ar 29 Tachwedd 2018; daeth i ben ar 14 Mawrth 2019 ar ôl cyfnod ymgynghori cyhoeddus ffurfiol 15 wythnos.

Mae'r ddogfen ymgynghori wedi'i chyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru a rhannwyd y manylion â rhanddeiliaid â diddordeb yn y safonau proffesiynol drafft arfaethedig ar gyfer cynorthwyo addysgu.

Dychwelwyd pob ymateb gan ddefnyddio'r ffurflen ymateb ar-lein neu'r ffurflen ymateb oedd ar gael i'w lawrlwytho. Ystyriwyd pob ymateb; rhoddir crynodeb o ymatebion y rhanddeiliaid isod. Mae'r holl ddyfyniadau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'u cyfieithu oni nodir yn wahanol.

# 2. Trosolwg o'r ymatebion

Cafwyd cyfanswm o 67 o ymatebion gan randdeiliaid amrywiol yn ystod y cyfnod ymgynghori 15 wythnos. Dengys y tabl isod y mathau o ymatebwyr fesul sefydliad

| **Math o Ymatebydd** | **Nifer yr Ymatebion** | **%** |
|---|---|---|
| Consortia/awdurdod lleol | 5 | 7.5 |
| Cyrff cenedlaethol/proffesiynol | 5 | 7.5 |
| Ymarferwyr/ysgolion | 33 | 49.3 |
| Undebau Gweithlu | 3 | 4.5 |
| Arall (ni roddwyd gwybodaeth) | 21 | 31.3 |
| **CYFANSWM** | **67** | **100** |

Rhoddir rhestr lawn o'r ymatebwyr yn Atodiad 1.

Cafwyd ymatebion cadarnhaol i bob cwestiwn ar y cyfan, gyda'r ymatebwyr yn canolbwyntio ar fuddiannau cyflwyno safonau proffesiynol ar gyfer CAau a CALUau. Yn eu plith roedd cydnabod statws proffesiynol a gwerth CAau a CALUau, egluro eu rôl, darparu ffocws a rennir ar gyfer y rhai sy'n cynorthwyo addysgu (ynghyd ag athrawon a'r rhai mewn rolau arwain ffurfiol) ar yr un pum safon: addysgeg, cydweithredu, dysgu proffesiynol, arweinyddiaeth ac arloesi.

Roedd yr ymatebion negyddol a gafwyd yn canolbwyntio'n gyffredinol ar gwmpas, hygyrchedd a chymhlethdod y safonau. Awgrymodd ymatebwyr eraill y dylai'r ddwy lefel o ddisgrifyddion gael eu disodli â phedair lefel o ddisgrifyddion er mwyn cyfateb i'r pedair lefel yn y gymuned cynorthwyo addysgu. Mynegwyd pryderon am yr amser, hyfforddiant a chyllid fyddai eu hangen i weithredu'r safonau. Cafwyd pryder hefyd y gallai'r penderfyniad i

gyflwyno safonau proffesiynol ar gyfer y sector hwn o'r gweithlu ysgol greu disgwyliadau y dylai CAau a CALUau fod yn cyflawni mwy na'u rolau a'u lefelau cydnabyddiaeth presennol. Awgrymodd rhai fod hyn eisoes yn digwydd, pan fydd CAau yn cyrraedd statws CALU, gan gyflawni rôl CALU ond heb gael eu gwobrwyo'n briodol os nad oes rôl CALU ar gael.

Roedd a wnelo'r holl ymatebion hynny a ystyriwyd yn 'negyddol' â phenderfyniadau'r gweithgorau ymarfer a luniodd y safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu. Trafodwyd creu safonau sy'n adlewyrchu'r lefelau o CAau yn hirfaith. Ar y cyd â'r safonau ceir disgrifiad swydd a pholisïau'r ysgol, sy'n rhoi penodoleb i'r swydd. Bwriedir i'r safonau lywio sgwrs am gyfraniad yr unigolyn a sut y gellir ei helpu i ddatblygu'n barhaus. Nid ydynt yn benodol i lefelau. Yn yr un modd, mae'r safonau proffesiynol ar gyfer arweinyddiaeth, sy'n gymwys ar draws y continwwm datblygu arweinwyr, yn cynnwys disgrifyddion ar gyfer dwy lefel yn unig, sef 'arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol' ac 'arweinyddiaeth ffurfiol hynod effeithiol barhaus'.

Ymdrinnir â'r posibilrwydd o ofyn i CAau neu CALUau weithio y tu hwnt i'w 'graddfa' neu gyflog gan yr un pwynt. Mae'r safonau yn cyd-fynd â dogfennaeth sy'n disgrifio manylion y swydd. Mae'n fwy tebygol yr ymdrinnir â phryderon ynghylch y posibilrwydd o osod gofynion afrealistig ar CAau os yw'r safonau a'r disgrifyddion yn creu set gyson o ddisgwyliadau. Gwnaed y pwynt hwn yn gryf mewn treialon ysgol.

Mae cymhlethdod a chwmpas disgrifyddion unwaith eto yn fater sydd wedi'i ymarfer yn flaenorol lle gwnaed penderfyniadau. Daeth y gweithgorau a ddatblygodd y deunyddiau i'r casgliad bod cymhlethdod o fudd, a welwyd unwaith eto mewn treialon. Cafwyd siom ynghylch y syniad na ddylai CAau a CALUau weithio i ddisgrifyddion cymhleth, ac mai dim ond rhai syml y gallent ymdopi â nhw. Mae deunyddiau atodol y safonau proffesiynol a'r ddogfen cwestiynau cyffredin gyfatebol yn nodi na fwriedir i'r holl ddisgrifyddion fod yn ffocws un adolygiad. Bydd y safonau fwyaf effeithiol pan gânt eu defnyddio i alluogi yn hytrach na phrofi perfformiad. Dangosodd y treialon fod ymgyfarwyddo â'r safonau yn bwysicach na hyfforddiant: dylai sgyrsiau am ddatblygu fod yn rhan naturiol o waith ac mae'r safonau yn hwyluso'r broses honno. Dangosodd yr holl dreialon fudd disgrifyddion cymhleth.

# 3. Cwestiynau'r ymgynghoriad a dadansoddiad o'r ymatebion

## Cwestiwn 1

| **Ydych chi'n cytuno bod y gwerthoedd a'r ymagweddau, y pum safon a'u helfennau yn cynnig diben priodol a rennir ar gyfer y rhai sy'n cynorthwyo addysgu?** | | | |
|---|---|---|---|
| | | **Canran Ymateb** | **Cyfanswm Ymateb** |
| 1 | Cytuno | 81.54% | 53 |
| 2 | Anghytuno | 7.69% | 5 |
| 3 | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 10.77% | 7 |
| | Cyfanswm yr ymatebion | | 65 |

## Trosolwg

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod y model safonau yn cynnig diben priodol a rennir ar gyfer CAau a CALUau, gan nodi eu bod yn gyson â safonau athrawon ac arweinwyr ac y byddent yn cefnogi eu datblygiad proffesiynol. Roedd sylwadau'r rhai oedd yn anghytuno yn cynnwys y pryderon ynghylch cwmpas y safonau; cymhlethdod yr iaith; y fformat cyflwyniadol a'r amser a'r adnoddau yr oedd eu hangen i hyfforddi a gweithredu'r safonau.

Ymhlith y sylwadau penodol roedd:

<u>Ysgolion ac ymarferwyr</u>
*Wrth ymgynghori â'r holl Gynorthwywyr Addysgu yn y sefydliad hwn, cytunai'r mwyafrif fod y gwerthoedd, yr ymagweddau, y safonau a'u helfennau i gyd yn briodol.*

<u>Undebau gweithlu</u>
*Er eu bod yn cydnabod bod cael safonau proffesiynol ar gyfer CAau yn syniad da mewn egwyddor, mae llawer o'n haelodau yn poeni bod y lefel o safonau a ddisgrifir yn y drafft yn mynd yn rhy bell yn rhy gyflym a bod y safon yn rhy uchel i lawer o CAau ei chyrraedd.*

<u>Cyrff cenedlaethol a phroffesiynol</u>
*Mae'r disgrifiad o'r prif werthoedd ac ymagweddau sy'n gysylltiedig â'u rôl yn ddefnyddiol i bwysleisio pwysigrwydd eu gwaith o ran cefnogi datblygiad a chyflawniad disgyblion.*

<u>Arall</u>
*Mae'n bwysig bod CAau yn gweld eu bod yn cael eu gwerthfawrogi cymaint â'r staff addysgu.*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Bydd y gwerthoedd a'r ymagweddau, y pum safon a'u helfennau yn aros fel ag y maent ar y cyfan a chânt eu hadolygu gydag ymarferwyr a rhanddeiliaid eraill maes o law, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas at y diben.

Yn hytrach nag ystyried bod y safonau yn gosod disgwyliadau y tu hwnt i rôl unigolyn, dangosodd adborth gan yr ysgolion a wnaeth dreialu'r safonau eu bod yn cydnabod nad yw'r safonau o reidrwydd yn ymwneud â 'gwneud mwy' ond 'gwneud pethau'n wahanol'. Lle mae'r safonau/disgrifyddion yn cyfeirio at faterion ehangach, mae'r safonau addysgu ac arweinyddiaeth yn gosod disgwyliad ar yr arweinydd ffurfiol i greu'r amodau sy'n galluogi staff cymorth i fodloni eu gofynion.

Mae Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol Llywodraeth Cymru, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â rhanddeiliaid, gan gynnwys y consortia rhanbarthol, yn gyson â'r safonau proffesiynol ac ar gael i bob CA a CALU, yn ogystal ag athrawon ac arweinwyr.

## Cwestiwn 2

| **Ydych chi'n cytuno bod y disgrifyddion arfer effeithiol (yn ogystal â'r disgrifyddion arfer effeithiol iawn a pharhaus sy'n gysylltiedig â phob elfen) yn cyfleu rôl cynorthwywyr addysgu (CA) a chynorthwywyr addysgu lefel uwch (CALU)?** | | | |
|---|---|---|---|
| | | **Canran Ymateb** | **Cyfanswm Ymateb** |
| 1 | Cytuno | 71.43% | 45 |
| 2 | Anghytuno | 9.52% | 6 |
| 3 | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 19.05% | 12 |
| | Cyfanswm yr ymatebion | | 65 |

**Trosolwg**

O'r ymatebion cadarnhaol a gafwyd i'r cwestiwn hwn, nododd rhai ymarferwyr eu bod eisoes yn cael budd o ddefnyddio'r disgrifyddion. Cyfeiriodd y rhai a anghytunai at natur amrywiol rolau CAau a CALUau a'r ffaith ei bod hi'n anodd cyfleu hyn mewn set o ddisgrifyddion. Nododd ymatebwyr eraill fod yr iaith a ddefnyddiwyd yn rhy gymhleth.

Ymhlith y sylwadau penodol roedd:

<u>Ysgolion ac ymarferwyr</u>
*Maent yn glir i alluogi'r CA i ddatblygu lle bo angen.*

<u>Undebau gweithlu</u>
*Mae angen mireinio rhai safonau ac iddynt fod yn llai penagored o ran iaith. Er enghraifft, gallai 'trefnu digwyddiadau i hyrwyddo'r ysgol' beri problemau o ran disgrifiadau swydd a chael effaith andwyol ar y rhai â chyfrifoldebau gofalu.*

<u>Consortia/awdurdodau lleol</u>
*Gan fod pedair lefel o ddisgrifiadau swydd ar gyfer cynorthwywyr addysgu, gall fod yn fwy priodol cael pedair lefel o ddisgrifyddion ym mhob un o elfennau'r safonau yn hytrach nag un disgrifydd isel ac un uchel?*

<u>Arall</u>
*Mae angen i rai o'r safonau gael eu geirio'n wahanol – i'w gwneud hi'n haws i CAau eu deall. Gallai enghreifftiau penodol fod yn fuddiol er mwyn i CAau eu deall yn well.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Croesawn y gefnogaeth a roddir i'r disgrifyddion gan fwyafrif yr ymatebwyr. Mae hyn yn adlewyrchu'r adborth a gawsom gan yr ysgolion a wnaeth dreialu'r safonau drafft cyn yr ymgynghoriad. Gwnawn ailedrych ar y safonau a'r disgrifyddion er mwyn gweld a ellir eu hegluro ymhellach cyn eu cyhoeddi.

Cydnabyddwn y ffaith bod rolau CAau a CALUau yn amrywio, ynghyd â'r lefelau o gymwysterau a all fod yn gymwys iddynt. Fodd bynnag, byddai cyflwyno set lawn o ddisgrifyddion ar gyfer pob un o'r pedair lefel o staff cymorth dysgu yn gymhleth ac yn drwsgl, ac mae adborth ymatebwyr eraill yn dangos nad oes fawr o awydd am hyn.

Ni fwriedir i'r safonau a'u disgrifyddion gymryd lle disgrifiadau swydd. Eu nod yw helpu CAau a CALUau i fyfyrio ar eu hymarfer, ennyn hyder o'u cyflawniadau a nodi meysydd i'w gwella. Dylai'r safonau proffesiynol gael eu defnyddio ar y cyd â'r disgrifiad swydd a pholisïau'r ysgol er mwyn diffinio rôl yr unigolyn.

Nid yw'r safonau proffesiynol ar gyfer athrawon, o athrawon sydd newydd gymhwyso (ANGau) i benaethiaid, yn cynnwys disgrifydd ar gyfer pob lefel. Ni chredwn ei bod hi'n briodol nac yn angenrheidiol i gyflwyno disgrifyddion ychwanegol ar gyfer y safonau cynorthwyo addysgu.

## Cwestiwn 3

| **Ydych chi'n cytuno y bydd y disgrifyddion sy'n gysylltiedig â phob elfen yn helpu CA a CALU i fyfyrio ar eu harfer a darparu ffocws ar gyfer datblygiad proffesiynol?** | | | |
|---|---|---|---|
| | | **Canran Ymateb** | **Cyfanswm Ymateb** |
| 1 | Cytuno | 72.31% | 47 |
| 2 | Anghytuno | 12.31% | 8 |
| 3 | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 15.38% | 10 |
| | Cyfanswm yr ymatebion | | 65 |

**Trosolwg**

Nododd y mwyafrif a oedd yn cytuno â'r cynnig hwn y disgrifiad priodol a ddarparwyd gan y disgrifyddion a'r ffocws y byddent yn ei roi o ran dysgu a datblygiad proffesiynol. Dynododd yr ymatebion negyddol na fyddai cyfleoedd i ddangos arfer yn erbyn y disgrifyddion a chael gafael ar ddysgu proffesiynol ar gael i bob CA a CALU efallai. Roedd rhai hefyd o'r farn bod rhywfaint o'r iaith a ddefnyddiwyd yn y disgrifyddion yn ddryslyd. Cafodd y ffaith nad yw CAau na CALUau yn cael amser cynllunio a pharatoi ei godi fel rhwystr i roi'r cyfle i CAau a CALUau ymgysylltu â'r disgrifyddion mewn ffordd ystyrlon.

Ymhlith y sylwadau penodol roedd:

Ysgolion ac ymarferwyr
*Rhydd y disgrifyddion (ar gyfer lefelau 1-3) ffocws clir i hunanwerthuso a phennu llwybr datblygu ond prin yw'r cyfleoedd i CALUau ddatblygu.*

Undebau gweithlu
*… er mwyn gwella safonau'n barhaus, rhaid buddsoddi ymhellach yn natblygiad proffesiynol CAau, cyflwyno strwythur gyrfa priodol sydd â chyflog ac amodau teg a thryloyw, a gymhwysir yn gyson ledled y wlad, a meithrin ymdeimlad o gynhwysiant mewn ysgolion sy'n cydnabod eu cyfraniad.*

Cyrff cenedlaethol a phroffesiynol
*Gobeithir y bydd yr adborth gan yr ysgolion a wnaeth dreialu'r safonau yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddarparu'r cymorth ychwanegol y gall fod ei angen ar ymarferwyr ac arweinwyr er mwyn gweithredu ac ymgorffori'r safonau yn effeithiol.*

Consortia/awdurdodau lleol
*Mae'n rhaid darparu cefnogaeth gref iddynt i ddeall sut mae eu gwaith bob dydd yn cyfateb i'r Safonau.* [Y geiriad gwreiddiol]

Arall
*Mae'r disgrifyddion yn ffordd i CAau fyfyrio ar eu rolau a nodi sut maent yn gysylltiedig â'u gwaith beunyddiol.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Croesawn y gefnogaeth a roddir i'r disgrifyddion gan fwyafrif yr ymatebwyr. Mae hyn yn adlewyrchu'r adborth a gawsom gan yr ysgolion a wnaeth dreialu'r safonau drafft cyn yr ymgynghoriad.

Cydnabyddwn, i lawer o'r rhai sy'n cynorthwyo addysgu, fod safonau proffesiynol yn beth anghyfarwydd. Mae'r safonau wedi'u dylunio i'w defnyddio, yn y lle cyntaf, fel ffocws i ddeialog proffesiynol ac i'w hystyried mewn perthynas â gwaith beunyddiol yr unigolyn. Gwerthfawrogwn y ffaith fod cymorth a dysgu proffesiynol yn rhan annatod o weithredu'r safonau yn llwyddiannus. Ar y cyd â'r rhanbarthau, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn datblygu llwybr dysgu i gynorthwywyr addysgu. Caiff CAau a CALUau eu hannog i fanteisio ar y dysgu proffesiynol fydd yn cyd-fynd â'r safonau proffesiynol. Ers i'r ymgynghoriad orffen, mae tair cynhadledd ranbarthol ar gyfer cannoedd o CAau a CALUau ledled y wlad wedi darparu'r cyfle i ddangos budd y safonau a sut y gellir eu defnyddio. Roedd yr ymateb bron i gyd yn gwbl gadarnhaol a brwdfrydig.

Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw bwerau o ran cyflog staff cymorth ysgolion – mater i gyflogwyr unigol yw hynny, boed yn ysgol neu'n awdurdod lleol. Cyfrifoldeb cyflogwyr unigol yw penderfynu ar eu strwythurau a'u polisïau cyflog. Y corff llywodraethu a'r pennaeth sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch y defnydd effeithiol o bob aelod o staff mewn ysgol.

## Cwestiwn 4

| **Ydych chi’n credu ei bod hi’n briodol i statws CALU fod yn seiliedig ar ddarparu tystiolaeth o gyflawni’r safonau a’r disgrifyddion perthnasol?** | | | |
|---|---|---|---|
| | | **Canran Ymateb** | **Cyfanswm Ymateb** |
| 1 | Cytuno | 76.92% | 50 |
| 2 | Anghytuno | 7.69% | 5 |
| 3 | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 15.38% | 10 |
| | Cyfanswm yr ymatebion | | 65 |

**Trosolwg**

Roedd llawer o'r rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig hwn yn gwneud hynny ar sail eu profiad o'r cynllun CALU presennol, y teimlwyd ei fod yn darparu fframwaith manwl gywir i CAau weithio gydag ef er mwyn datblygu'n broffesiynol. Pwysleisiwyd mai dim ond y CAau hynny

oedd yn ymroddedig ac yn barod a ddylai fynd ati i gyrraedd statws CALU. Mae pryderon ynghylch y cynnig yn tanlinellu'r ffaith na chaiff CAau na CALUau amser cynllunio a pharatoi i ddilyn y rhaglen CALU. Hefyd, teimlwyd bod diffyg cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gael i CAau.

Ymhlith y sylwadau penodol roedd:

<u>Ysgolion ac ymarferwyr</u>
*Teimlwyd y byddai'r system hon yn cynnig eglurder a chysondeb o ran cyrraedd statws CALU.*

<u>Undebau gweithlu</u>
*Er bod hyn yn iawn mewn egwyddor nid yw'n nodi faint o amser a roddir i CAau gyflawni'r gwaith hwn.*

<u>Consortia/awdurdodau lleol</u>
*…Ond nid mater pum munud fyddai addasu'r rhaglen CALU bresennol i ymdebygu i'r Safonau arfaethedig. Mae angen parhau â'r cysondeb cenedlaethol sydd yn bodoli yn rhaglen CALU, gyda pharatoi trylwyr o unrhyw adnoddau a hyfforddiant aseswyr yn angenrheidiol.* [Y geiriad gwreiddiol]

<u>Arall</u>
*Mae hyn yn hanfodol.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Roedd mwyafrif yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn gadarnhaol, gan adlewyrchu'r gefnogaeth i'r trefniadau presennol o ran cyrraedd statws CALU. Cydnabyddwn, er mwyn cysylltu'r rhaglen CALU â'r safonau cynorthwyo addysgu newydd, y bydd angen gwneud gwaith paratoi a sicrhau datblygiad proffesiynol, o ran CAau sy'n dilyn y rhaglen, a'r rhai sy'n ei gweinyddu.

O fis Mehefin 2019 bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Consortia Rhanbarthol i gysoni gofynion CALU â'r safonau newydd gyda'r nod o sicrhau bod y gofynion diwygiedig ar gael o fis Ionawr 2020.  Caiff meini prawf asesu CALU eu datblygu mewn partneriaeth â chonsortia maes o law.

Fel y nodwyd yn yr ymateb i gwestiwn 3, nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw bwerau dros gyflog staff cymorth ysgolion. Mater i gyflogwyr unigol yw hyn yn llwyr.

## Cwestiwn 5

| Ydych chi’n credu y bydd defnyddio’r safonau ar gyfer cynorthwyo addysgu yn hyrwyddo pwysigrwydd y rôl ac yn helpu CA a CALU i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi? | | | |
|---|---|---|---|
| | | **Canran Ymateb** | **Cyfanswm Ymateb** |
| 1 | Cytuno | 63.64% | 42 |
| 2 | Anghytuno | 18.18% | 12 |
| 3 | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 18.18% | 12 |
| | Cyfanswm yr ymatebion | | 66 |

**Trosolwg**

Roedd sylwadau'r rhai a gefnogai'r cynnig hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar bwysigrwydd codi proffil y rhan hon o weithlu ysgol. Teimlai'r ymatebwyr y byddai safonau proffesiynol yn cyflawni hyn drwy gysoni CAau a CALUau ag athrawon ac arweinwyr, gan danlinellu pwysigrwydd eu rôl a'r angen i'w defnyddio'n effeithiol. Awgrymwyd y dylai athrawon dan hyfforddiant gael gwybod am strategaethau ar gyfer gwneud defnydd effeithiol o weithwyr cymorth dysgu fel rhan o raglenni addysg gychwynnol athrawon (AGA).

O blith y rhai a oedd yn anghytuno neu ddim yn cytuno nac yn anghytuno, nododd sawl ymatebydd mai dim ond rhan o'r darlun oedd safonau proffesiynol a bod elfennau eraill hefyd yn bwysig. Er enghraifft, rôl arweinyddiaeth a diwylliant yr ysgol; cyflog a threfniadau cytundebol y grŵp hwn, a'r cyfleoedd dysgu proffesiynol a roddir iddo. Teimlai ambell ymatebydd y gallai'r safonau beri'r risg o greu pwysau neu lwyth gwaith ychwanegol. Cyfeiriwyd at bwysigrwydd meithrin gwell dealltwriaeth o rôl CA/CALU a'u defnyddio'n effeithiol. Teimlai ambell un na fyddai'r effaith fwriadedig yn cael ei chyflawni oherwydd cymhlethdod y safonau, a rhybuddiodd un ymateb y gallai ei gwneud yn anos i recriwtio CAau a CALUau.

Ymhlith y sylwadau penodol roedd:

<u>Ysgolion ac ymarferwyr</u>
*Teimlaf fod hyn yn bwynt pwysig o ran ailsefydlu pwysigrwydd staff cymorth mewn ysgolion. Mae gan lawer o CAau gymwysterau amrywiol a dylai pob rôl gael ei gwerthfawrogi. Mae'r athro a'r CA yn ategu ei gilydd i sicrhau'r gorau i bob plentyn.*

<u>Cyrff cenedlaethol a phroffesiynol</u>
*Mae datblygu'r safonau yn ffordd ddefnyddiol o godi proffil y gwaith pwysig a wneir gan gynorthwywyr addysgu a CALUau. Bydd effeithiolrwydd y safonau o ran eu helpu i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn dibynnu ar weithredu'r safonau mewn ysgolion ac ansawdd y gefnogaeth a roddir i benaethiaid ac uwch arweinwyr er mwyn eu helpu i ddeall sut y dylent eu defnyddio i wella arfer proffesiynol y rhai sy'n cynorthwyo addysgu. Mae hyn yn arbennig o wir os yw defnyddio'r safonau yn rhan o adolygiadau perfformiad gorfodol a dyfarnu statws CALU fel mae Llywodraeth Cymru yn ei gynnig. Felly, bydd effaith y safonau ar sicrhau bod cynorthwywyr addysgu a CALUau yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn eu rolau yn dibynnu ar effeithiolrwydd y broses o weithredu'r safonau yn hytrach na chynnwys y ddogfen ei hun.*

Consortia/awdurdodau lleol
*Bydd hyn ond yn digwydd pan fydd staff addysgu wedi cael amser i ddarllen a deall rôl y CA a'r CALU yn llawn.*

Arall
*Ni all y ddogfen hon ddiffinio'r ffordd rydym yn cael ein gwerthfawrogi. Bydd y ddogfen hon yn cael ei gweld yn fwy fel disgrifiad swydd a daw'r ymdeimlad o gael eich gwerthfawrogi o du arweinyddiaeth a chymheiriaid.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Cydnabyddwn na ellir gwella canfyddiadau o'r rôl drwy gyflwyno safonau proffesiynol yn unig. Mae gan arweinyddiaeth a diwylliant ysgol ran bwysig i'w chwarae a dyna pam mae'r safonau addysgu ac arweinyddiaeth yn disgwyl i arweinwyr ffurfiol greu'r amodau sy'n galluogi gweithlu'r ysgol gyfan, gan gynnwys staff cymorth, i fodloni ei ofynion.

Ar y cyd â'r consortia rhanbarthol, bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn gwella ymhellach y llwybr dysgu i gynorthwywyr addysgu er mwyn bod yn gyson â fframwaith y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol a'r safonau proffesiynol.

## Cwestiwn 6

| **Ydych chi'n cytuno bod adolygu perfformiad, ynghyd â mynediad at gyfleoedd dysgu proffesiynol, yn allweddol i sicrhau bod y safonau'n cael y dylanwad mwyaf posibl ar arfer?** | | | |
|---|---|---|---|
| | | **Canran Ymateb** | **Cyfanswm Ymateb** |
| 1 | Cytuno | 81.82% | 54 |
| 2 | Anghytuno | 9.09% | 6 |
| 3 | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 9.09% | 6 |
| | Cyfanswm yr ymatebion | | 66 |

**Trosolwg**

Y cynnig hwn a gafodd y ganran fwyaf o ymatebion cadarnhaol.  Pwysleisiodd y rhan fwyaf o'r bobl werth cyflwyno prosesau datblygu perfformiad ar gyfer CAau a CALUau er mwyn creu deialog, myfyrio ar eu gwaith a nodi dysgu proffesiynol. Nododd rhai fod angen i hyn gael ei wneud mewn ffordd ddeallus a sensitif a rhybuddiodd eraill am oblygiadau posibl dechrau rheoli perfformiad y grŵp hwn ar lwyth gwaith athrawon.

O ran dysgu proffesiynol, pwysleisiodd rhai ymatebion yr angen i CAau a CALUau gael cyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel. Nododd eraill faterion cyllidebol a oedd yn golygu na ellid rhyddhau CAau a CALUau at ddibenion dysgu proffesiynol. Awgrymodd un ymatebydd fod angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid dysgu proffesiynol yn cael ei ddefnyddio er budd CAau a CALUau.

Ymhlith y sylwadau penodol roedd:

Ysgolion ac ymarferwyr
*Roedd bron pawb a wnaeth ymateb i'r ymgynghoriad o'r farn bod adolygu perfformiad yn elfen bwysig o'u datblygiad proffesiynol a bod hyn yn cynnig cyfle i drafod cryfderau posibl, camau datblygu a chyfleoedd DPP posibl. Teimlai llawer bod angen canolbwyntio'n fwy ar gyfleoedd dysgu proffesiynol penodol CAau gan ddarparwyr allanol, gan fod llawer o'r rhai a oedd wedi achub ar gyfleoedd allanol o'r farn eu bod yn canolbwyntio'n fwy ar staff addysgu na staff CA.*

Undebau gweithlu
*Mae'n angenrheidiol i unigolion gael mynediad at ddysgu proffesiynol, ac mae'n rhaid i'r unigolyn gael mewnbwn i'r broses o benderfynu pa hyfforddiant sy'n addas; mae adolygu perfformiad – wedi'i wneud mewn ffordd ddeallus - yn fodd o hwyluso hynny.* [Y geiriad gwreiddiol]

Cyrff cenedlaethol a phroffesiynol
*Mae gwaith Estyn gydag ysgolion drwy adroddiadau arolygu a thematig yn awgrymu'n gryf y dylai'r adolygiadau o berfformiad gael eu hategu gan gyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel. Mae'n bwysig bod y cyswllt hwn yn cael ei bwysleisio fel rhan o'r broses o gyflwyno'r safonau newydd a'u rhoi ar waith.*

Arall
*Ar yr amod ei fod yn adolygiad adeiladol ac yn berthnasol i'r rolau unigol.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddatblygu'r gweithlu yn unol â'r dull cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol a'r blaenoriaethau lefel uchel a nodir yn *Cenhadaeth ein Cenedl*. Nodwn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn a chânt eu hystyried eto fel rhan o adolygiad o drefniadau arfarnu presennol ysgolion, a ddylai ddechrau yn nes ymlaen eleni.

O ran yr angen i CAau a CALUau gael cyfleoedd dysgu proffesiynol, mae'r dull cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol wedi cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â chonsortia er mwyn i bob ymarferydd, gan gynnwys CAau a CALUau, gael cyfleoedd datblygu gydol eu gyrfa.

## Cwestiwn 7

| **Ydych chi'n credu, fel mater o egwyddor, y dylai adolygu perfformiad y rhai sy'n cynorthwyo addysgu fod yn ofyniad statudol fel rhan o bolisi adolygu perfformiad ysgolion (h.y. proses arfarnu orfodol a bennir mewn deddfwriaeth)?** | | | |
|---|---|---|---|
| | | **Canran Ymateb** | **Cyfanswm Ymateb** |
| 1 | Cytuno | 70.31% | 45 |
| 2 | Anghytuno | 15.63% | 10 |
| 3 | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 14.06% | 9 |
| | Cyfanswm yr ymatebion | | 66 |

**Trosolwg**

Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylai system rheoli perfformiad statudol fod yn gysylltiedig â chyflog. Teimlai eraill fod hyn yn rhan naturiol o broffesiynoldeb ac atebolrwydd. Dywedodd un ymateb y gallai cyflwyno system rheoli perfformiad statudol ar gyfer CAau a CALUau fynd i'r afael â thanberfformiad. Dynododd ambell sylw fod trefniadau rheoli perfformiad eisoes ar waith ar gyfer y grŵp hwn o'r gweithlu.

Ymhlith y sylwadau penodol roedd:

Undebau gweithlu
*... dylai pob aelod o'r proffesiwn gael ei fesur yn ôl yr un safonau, a phetai'r safonau proffesiynol hyn yn cael eu cyflwyno, yna rhaid byddai gwneud hynny'n deg ac ar yr un pryd ledled Cymru.*

Cyrff cenedlaethol a phroffesiynol
*O ystyried pwysigrwydd adolygu perfformiad yn effeithiol mewn perthynas â chyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel ... cefnogwn adolygu perfformiad y rhai sy'n cynorthwyo addysgu fel rhan o broses arfarnu orfodol a nodir mewn deddfwriaeth.*

Consortia/awdurdodau lleol
*Bydd hyn yn sicrhau eu statws proffesiynol yn yr ysgol.*

Arall
*Ar yr amod bod hyn yn gysylltiedig â graddfeydd cyflog.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Nodwn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn a chânt eu hystyried eto fel rhan o adolygiad o drefniadau rheoli perfformiad presennol ysgolion.

Fel y nodwyd uchod, nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw bwerau dros gyflog staff cymorth ysgolion, sy'n fater i gyflogwyr unigol.

## Cwestiwn 8

| **Ydych chi'n credu bod yr amserlen arfaethedig a'r trefniadau ar gyfer cyflwyno'r safonau newydd yn realistig?** | | | |
|---|---|---|---|
| | | **Canran Ymateb** | **Cyfanswm Ymateb** |
| 1 | Cytuno | 46.97% | 31 |
| 2 | Anghytuno | 18.18% | 12 |
| 3 | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 34.85% | 23 |
| | Cyfanswm yr ymatebion | | 66 |

## Trosolwg

Y cwestiwn hwn a gafodd y ganran fwyaf o ymatebion 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno' o gymharu â'r cwestiynau eraill, er bod mwyafrif yn cytuno o hyd. Teimlai rhai o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno ei bod hi'n bwysig sicrhau bod y broses o gyflwyno'r safonau yn cyd-fynd â chyflwyno'r cwricwlwm newydd. Nododd eraill fod hyn yn ddatblygiad rhesymegol yn sgil cyflwyno safonau proffesiynol ar gyfer athrawon ac arweinwyr ysgol.

O blith y rhai a oedd yn anghytuno neu ddim yn cytuno nac yn anghytuno, teimlai rhai fod angen ymgynghori ymhellach. Nododd eraill fod gormod o newidiadau eraill i'r system addysg, yn benodol y cod anghenion dysgu ychwanegol a'r cwricwlwm newydd. Awgrymodd eraill fod angen mwy o gyllid a chyfleoedd dysgu proffesiynol. Hefyd, nodwyd bod angen amser i baratoi ar gyfer y llwyth gwaith cynyddol a oedd yn gysylltiedig â rheoli CAau a CALUau a sicrhau bod y safonau wedi'u cynnwys yn llawn o fewn y rhaglen CALU.

Ymhlith y sylwadau penodol roedd:

Undebau gweithlu
*Er bod yr undeb yn cytuno'n fras ag egwyddor cymhwyso safonau proffesiynol, mae'r argymhellion presennol yn y ddogfen ymgynghori yn rhy uchel i'w cyflawni mewn un cam, a dylent fod yn fwy cynyddrannol.*

Cyrff cenedlaethol a phroffesiynol
*O ystyried bod y gyfres o safonau proffesiynol eisoes ar waith ar gyfer gweddill y gweithlu, ymddengys yn briodol bod y safonau ar gyfer y rhai sy'n cynorthwyo addysgu, sydd eisoes wedi'u treialu, yn cael eu cyflwyno mewn modd amserol. Hoffem ailbwysleisio'r angen i gefnogi'r grŵp hwn i fabwysiadu'r safonau.*

Consortia/awdurdodau lleol
*Mae'n rhaid gofalu bod amser digonol i sicrhau fod y darlun cyflawn ar gyfer CA a CALU yn ei le'n genedlaethol, nid ei gyflwyno'n bytiog ac heb lawn ystyriaeth.* [Y geiriad gwreiddiol]

Arall
*Byddai'r fath newid yn gofyn am bennu amserlen fwy realistig a darparu mwy o gyllid ar gyfer hyfforddiant mewnol ac allanol er mwyn cyflwyno ffordd newydd o weithredu.*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae canllawiau presennol Llywodraeth Cymru yn dynodi ei bod hi'n arfer da i ysgolion gynnwys staff cymorth yn y cylch rheoli perfformiad ac mae'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn dynodi bod hyn eisoes yn digwydd mewn rhai ysgolion. Dylai'r broses o gyflwyno safonau proffesiynol eu cefnogi i barhau i wneud hyn.

I'r ysgolion hynny nad ydynt yn cynnwys CAau na CALUau yn eu trefniadau rheoli perfformiad, cydnabyddwn yr heriau a all godi yn sgil hyn. Fodd bynnag, dylid nodi na fydd angen i'r mwyafrif o'r grŵp hwn ymwneud â'r holl ddisgrifyddion yn eu cyfanrwydd. Heblaw am y rhai sy'n gwneud cais am statws CALU sydd angen dangos eu bod yn bodloni'r holl ddisgrifyddion perthnasol, bydd pawb arall yn defnyddio'r safonau i ategu'r broses rheoli perfformiad er mwyn myfyrio ar eu gwaith a nodi meysydd dysgu proffesiynol.

At ei gilydd, credwn fod y buddiannau i CAau a CALUau, y sector ysgol ehangach a dysgwyr, yn y pen draw, yn gorbwyso'r heriau. Caiff y safonau eu cyflwyno ar sail anstatudol i ddechrau. Bydd adolygiad o drefniadau rheoli perfformiad CAau/CALUau yn rhan o adolygiad ehangach o ofynion statudol presennol ysgolion maes o law.

## Cwestiwn 9

**Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai cyflwyno safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu yn eu cael ar y Gymraeg, ac yn benodol ar:**

**i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg**

**ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?**

### Trosolwg

Cafwyd cyfanswm o 42 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn gadarnhaol, gan ddynodi ei bod hi'n bwysig i CAau a CALUau fod yn ymwybodol o bwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg yn achlysurol a chefnogi'r iaith. Ni chredai rhai ymatebwyr y byddai'r safonau yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg, a chredai eraill fod angen i CAau a CALUau gael mwy o gyfleoedd i feithrin eu sgiliau Cymraeg.

Ymhlith y sylwadau penodol roedd:

<u>Ysgolion ac ymarferwyr</u>
*Mae staff cymorth yr ysgol yn defnyddio'r Gymraeg fel rhan o'r Cwricwlwm ac felly maent yn gefnogol ohoni. Ni fyddai'r safonau proffesiynol yn llai ffafriol a byddent yn cael eu hystyried yn gryfder cadarnhaol o ran cefnogi'r Gymraeg.*

<u>Undebau gweithlu</u>
*Cefnogwn egwyddor miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Fel rydym eisoes wedi'i nodi, fodd bynnag, ni ddylai CAau orfod cefnogi eu cyfleoedd eu hunain i ddysgu Cymraeg, ac ni ddylai hyn eu hatal rhag dod yn CALU. Heb yr holl hyfforddiant a chyllid sydd eu hangen ar gyfer y gweithlu addysg cyfan, ni chaiff targedau'r Gymraeg eu bodloni.*

<u>Consortia/awdurdodau lleol</u>
*Yn fy mhrofiad i, mae peth tystiolaeth yn barod fod CA yn manteisio ar gyfleoedd i fynychu cyrsiau sabothol Cymraeg ac ati. Mae ethos yr ysgol - a daliadau personol Pennaeth, UDRh ac ati yn dylanwadu'n fawr ar yr agweddau hyn. [Y geiriad gwreiddiol]*

<u>Arall</u>
*Credaf y byddai'n darparu fframwaith i herio'r agwedd negyddol sydd gan lawer o gynorthwywyr addysgu tuag at y Gymraeg a'i haddysgu.*

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i drawsnewid y ffordd y caiff y Gymraeg ei haddysgu a'i dysgu, er mwyn galluogi pob dysgwr i feithrin ei sgiliau Cymraeg a defnyddio'r iaith yn hyderus yn ei fywyd beunyddiol. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, rhaid i ni sicrhau bod pob dysgwr yn cael budd o gwricwlwm o'r radd flaenaf.

Ym mis Ionawr 2019, cyhoeddwyd newidiadau arfaethedig i'r ffordd y caiff y Gymraeg ei haddysgu, gyda'r iaith yn parhau i fod yn orfodol i ddysgwyr rhwng 3 ac 16 oed – ar y cyd â'r Saesneg – ond heb gael ei gwahanu mwyach yn Rhaglenni Astudio iaith gyntaf ac ail iaith. O dan y cynigion, bydd pob dysgwr yn dilyn yr un cwricwlwm a byddai mwy o bwyslais ar wella sgiliau dysgwyr a'u defnydd o'r iaith.

Fodd bynnag, ni all ein cwricwlwm newydd gael ei gyflwyno heb weithlu addysg dyheadol, a gefnogir yn dda, a'r her a wynebwn yw paratoi'r gweithlu yn ddigonol er mwyn cyflwyno'r cwricwlwm newydd o 2022. Ar hyn o bryd, mae Cynllun Sabothol y Gymraeg yn darparu cyfleoedd i CAau a CALUau ddilyn cyrsiau Cymraeg dwys. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chonsortia rhanbarthol a rhanddeiliaid eraill, fel y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, er mwyn datblygu a gweithredu rhaglen dysgu proffesiynol ar gyfer y Gymraeg yn unol â'r dull cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol a thrwy fodelau cyflwyno gwahanol.

## Cwestiwn 10

**Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y safonau arfaethedig:**

**i) fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**

**ii) fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

### Trosolwg

Cafwyd cyfanswm o 29 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gyda llawer o ymatebwyr yn dynodi na allent wahaniaethu rhwng y cwestiwn hwn a'r cwestiwn blaenorol. O'r rhai a wnaeth ymateb, cafwyd pwyslais ar yr angen am amser, cyllid a hyfforddiant er mwyn i CAau a CALUau ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy. Roedd y sylwadau eraill yn cwmpasu amrywiaeth barn. Yn eu plith roedd: ni ddylai'r Gymraeg fod yn orfodol; cred y byddai'r safonau newydd yn llwyddo i godi proffil iaith a diwylliant Cymru; awgrym y dylai'r Gymraeg gael ei fframwaith ei hun, yn debyg i'r fframwaith llythrennedd a rhifedd.

Ymhlith y sylwadau penodol roedd:

<u>Ysgolion ac ymarferwyr</u>
*Dim ond yn elfen Dysgu Proffesiynol y safonau y cyfeirir at iaith a diwylliant Cymru. Gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol drwy gynnwys cyfeiriad yn yr elfennau addysgeg, e.e. 'Cyd-destunau dilys, go iawn'.*

<u>Cyrff cenedlaethol a phroffesiynol</u>
*… byddai adolygu'r disgrifyddion i gynnwys peth cyfeiriad at ddefnyddio'r Gymraeg mewn sawl safon yn cynyddu effaith gadarnhaol y safonau ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith, a byddai'n helpu ymhellach i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.*

Consortia/awdurdodau lleol
*Byddai neilltuo rhywfaint o amser i CAau / CALUau ddilyn cwrs Cymraeg yn ystod yr wythnos waith o fudd, cwrs ar-lein efallai?*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Nodwn yr awgrymiadau sydd wedi cael eu gwneud a byddwn yn eu hystyried wrth i ni baratoi'r safonau terfynol i'w cyhoeddi, ac wrth i ni barhau i ddatblygu rhaglen dysgu proffesiynol ar gyfer CAau a CALUau.

## Cwestiwn 11

**Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.**

**Trosolwg**

Cafwyd cyfanswm o 32 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, a oedd yn cwmpasu amrywiaeth barn.

Ymhlith y sylwadau penodol roedd:

Ysgolion ac ymarferwyr
*Mae angen cael mwy o wybodaeth er mwyn trafod sut y bydd y safonau hyn yn effeithio ar staff CA asiantaeth, pwy fydd yn gyfrifol am gynnal adolygiadau blynyddol o berfformiad, am gynnig cyfleoedd rheoli perfformiad, DPP i'r staff hyn.*

*Os caiff y safonau hyn eu cyflwyno, a fydd unrhyw gymhelliant i gyflawni, ee, cyflog sy'n gysylltiedig â pherfformiad?*

Undebau gweithlu
*Byddem hefyd yn nodi ei bod hi'n ymddangos i'r safonau hyn gael eu hysgrifennu am weithwyr addysg proffesiynol sy'n gweithio mewn ysgolion a byddem yn tanlinellu'r angen am gydraddoldeb â'r sector AB.*

Consortia/awdurdodau lleol
*Yn y safonau mae'n son y bydd rhaid i gynorthwyydd cael lefel 2 sgiliau digidol (yn ogystal a iaith a mathemateg). Does gan y mwyafrif o athrawon ddi lefel 2 yn sgiliau digidol a gall hen cael effaith ar y nifer sydd yn ceisio i fod yn CALU.* [Y geiriad gwreiddiol]

Arall
*Gormod o bwyslais ar 'yn yr ystafell ddosbarth'. Mae hyn yn lleihau rôl CALUau sy'n cyflawni rolau arbenigol y tu allan i'r ystafell ddosbarth, ond sy'n gweithio gyda phlant mewn ffordd arall.*

**Llywodraeth Cymru**

Ymdriniwyd â llawer o'r materion a godwyd wrth ymateb i gwestiynau blaenorol.  Nodwn y sylwadau sydd wedi cael eu gwneud a byddwn yn eu hystyried wrth i ni baratoi'r safonau terfynol i'w cyhoeddi, ac wrth i ni barhau i weithio gyda rhanddeiliaid er mwyn cefnogi'r

broses o'u cyflwyno mewn ysgolion. Byddwn yn sicrhau bod ymarferwyr a rhanddeiliaid eraill yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am hynt y broses a'r amserlen ar gyfer gweithredu'r safonau.

Caiff y gofyniad i CALUau feddu ar sgiliau digidol lefel 2 (yn ogystal â lefel 2 llythrennedd a rhifedd) ei ohirio nes bod y cymorth angenrheidiol ar gael.

## Atodiad 1: Rhestr o'r ymatebwyr

1. Dienw
2. Dienw
3. Dienw
4. Dienw
5. Dienw
6. Dienw
7. Dienw
8. Dienw
9. Dienw
10. Dienw
11. Gethin Sutton, Ysgol Pen y Bryn
12. Dienw
13. Dienw
14. Dienw
15. Dienw
16. Dienw
17. Dienw
18. Dienw
19. Mrs A R Green
20. Alec Mills, Clwstwr Islwyn
21. Dienw
22. Dienw
23. Dienw
24. Dienw
25. Dienw
26. Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Ysgol Gyfun Gwynllyw, Ysgol Gyfun Gwent Is Coed, Ysgol Gyfun Rhisga, Ysgol Uwchradd Llysweri ac Ysgol John Frost
27. Enid Haf Williams, GwE
28. Dienw
29. Dienw
30. Dienw
31. Dienw
32. Dienw
33. Dienw
34. Wendy Williams, Ysgol Deganwy
35. Richard Ebley
36. Mr K Jones
37. Dienw
38. Dienw
39. Dienw
40. Dienw
41. Dienw
42. Dienw
43. Terri Jones
44. Dienw
45. Dienw
46. Dienw
47. Dienw

48. Dienw
49. Estyn
50. Clwstwr Croesyceiliog Torfaen
51. Catherine Bryan, y Gwasanaeth Addysg Catholig
52. Cyngor y Gweithlu Addysg
53. Dienw
54. Dienw
55. Dienw
56. Hilary Roberts, Loran Tanner a Cariad Davage, Ysgol Gynradd Treftadaeth Blaenafon
57. Dienw
58. Dienw
59. Dienw
60. Dienw
61. Dienw
62. Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar
63. Awdurdod Lleol Ceredigion
64. NEU Cymru
65. Unsain Cymru
66. Ruth Davies, Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr
67. UCAC